Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
Awdurdodau Tân Cyfun Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Dyddiad / Date: 3 Gorffennaf 2025

Annwyl Gyfaill,

## Ffurflen Alldro Cyfalaf Blynyddol, 2024-25

Heddiw, byddwn yn anfon neges e-bost a fydd yn cynnwys taenlen ar gyfer y ffurflen uchod at ein person cyswllt yn eich awdurdod. Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu yn unol ag adran 168 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Dylid cwblhau a dychwelyd y daenlen hon erbyn 31 Gorffennaf 2025 drwy e-bost. Sylwch nad oes rhaid i ni gael copi caled wedi'i lofnodi o'r ffurflen hon bellach.

### 1. Sut y caiff y data eu defnyddio

Mae'r ffigyrau a gofnodir ar y ffurflen alldro cyfalaf yn rhan hanfodol o'r Cyfrifon Gwladol, felly mae'n bwysig eu bod mor gywir ac mor amserol â phosibl. Nid yw'r wybodaeth a gesglir yma ar gael yn unman arall. Bydd y ffigurau o'r ffurflen yn cael eu cyhoeddi'n llawn ar wefan StatsCymru. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn ymatebion i Gwestiynau'r Cynulliad, wrth ymdrin â gohebiaeth weinidogol ac at ddibenion monitro mwy cyffredinol.

I osgoi dyblygu ceisiadau am wybodaeth, mae'n bosibl y caiff rhywfaint o'r data eu hanfon ymlaen at CIPFA i'w defnyddio yn eu cyhoeddiadau o ystadegau ‘Gwirioneddol’. Gwneir hyn gyda chytundeb cymdeithasau’r awdurdodau lleol.

Pan fydd y set ddata yn derfynol, bydd is-setiau o'r data, i'w cymharu â phob awdurdod arall, yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru.

### 2. Materion eraill

Dylid cwblhau'r ffurflen gyflawn ar sail croniadau. Yn unol â'r 'Cod', mae’n rhaid i awdurdodau ddangos gwariant a derbyniadau cyfalaf ar sail croniadau yn eu cyfrifon cyhoeddedig.

Un o ofynion yr archwiliad yw bod rhaid i bob rhan o’r ffurflen gael ei llenwi â data, gan ddefnyddio sero lle y bo angen. I helpu gyda hyn, mae sero wedi cael ei roi ym mhob cell wag.

## 3. Manylion cyswllt

Anfonwch gopi o'r daenlen wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025, ac unrhyw ymholiadau neu ohebiaeth arall, yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru


Ymholiadau dros y ffôn: Frank Kelly – 0300 025 5673

Cyfeiriad post

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ


Diolch i chi am eich cydweithrediad.

Cofion cynnes,


**Anthony Newby**
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government